*Ysgol Bro Alun*
*Rhodfa Delamere*
*Gwersyllt*
*Wrecsam*
*LL11 4NG*
*Ffôn: 01978 269580*
*Ffacs: 01978 269589*

Ysgol Bro Alun
Delamere Avenue
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Tel: 01978 269580
Fax: 01978 269589

# YSGOL BRO ALUN

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk**

Mawrth 7fed

**Clwb brecwast**

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cydweithrediad wrth i'r ysgol gychwyn ar newidiadau i'r clwb brecwast yr wythnos yma. Ar y cyfan, mae pethau wedi gwiethio'n reit dda. Serch hynny, rydym wedi cael nifer o blant heddiw yn cyrraedd y clwb cyn 8:20am, heb arian neu heb dalu ar-lein o flaen llaw. Mi oedd rhai o'r disgyblion hyn yn cyrraedd heb rieni / gwarchodwyr i'w hebrwng hefyd.

Felly os gwelwch yn dda a wnewch chi sicrhau:

- Eich bod yn talu unai ar lein, erbyn y dydd Iau blaenorol, neu yn talu £1 ar y dwirnod os yw'ch plentyn yn cyrraedd cyn 8:20am. Rydym yn cael ein rhoi mewn sefyllfa anodd os nad oes taliad wedi ei wneud a mae hefyd yn cynyddu llwyth gwaith staff sy'n brysur iawn yn barod

- Eich bod yn hebrwng eich plentyn at ddrws y neuadd os ydent yn mynychu'r clwb, yn enwedig cyn 8:20am, a nid eu gollwng yn y maes parcio.

Diolch am eich cydweithrediad,

Osian Jones